**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (39)**

**Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**
*NDM904* **-** Penderfynu:

1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/8 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adrannau 77(1) a 78 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn sydd wedi'u nodi wrth bob mater yn yr Atodlen honno, a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Richard Edwards AC
Geraint Davies AC
Val Lloyd AC
Eleanor Burnham AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 16 Ionawr 2002, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

5. Yn achos y mater y cyfeirir ato ym mharagraff 1 yr Atodlen i'r cynnig hwn bydd y swyddogaethau a ddirprwywyd ac a ddaw i rym drwy'r cynnig hwn yn disodli'r swyddogaethau a ddirprwywyd yn y cynnig i sefydlu Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/4.

**Atodlen**

1. Cais wedi'i alw i mewn gan Marks and Spencer PLC ar gyfer estyniad arfaethedig i siop bresennol Marks and Spencer ar dir i'r gorllewin o siop Tesco, Croes Cwrlwys, Trelai, Caerdydd.

2. Apêl cynllunio gan Ddwr Cymru ar gyfer estyniad ac addasiadau arfaethedig i Waith Trin Dwr Gwastraff Llanbedr, Llanbedr, Harlech.

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Mesur Addysg - (Wedi'i Aildrefnu ar gyfer y 10 Ionawr 2002)**

**Eitem 4**
**Datganiad: Cymdeithas y Plant**

**Eitem 5**
**Datganiad ar Sellafield**

**Eitem 6**
**Datganiad: Newidiadau Arfaethedig i'r Gyllideb**

**Eitem 7**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 8**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Rheol Sefydlog 22.25:**
**Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002**
*NDM909* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:
1. Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2001; ac

2. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2001; yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2001; a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 9**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth)(Cymru)(Diwygio) 2002**
*NDM905* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn croesawu'r ffaith fod y profion i blant 7 oed yn dod i ben ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau'r baich o gynnal asesiadau drwy ddefnyddio'r un egwyddor ar gyfer profion i blant 11 oed.

*NDM906* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2001; a

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001;

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 10**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1)**

**(Cymru) 2002**
*NDM907* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

*NDM908* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2001; a

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001;

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 11**
**Gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 9 ar Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Nodded** - ***Ni fydd yr eitem yma yn cael ei symud***

**Eitem 12**
**Dadl ar Safon ar gyfer Ansawdd Tai Cymru**
*NDM910* - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y bydd sicrhau bod tai Cymru'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru'n ei wneud i'r weledigaeth o greu Cymru sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn gyfartal.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)
(2) +(3)+(4)+(5)

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pob gair ar ôl "Yn cydnabod" ac yn ei le rhoi,

"bod yn rhaid sicrhau, wrth ddod â thai Cymru i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru y rhoddir cydnabyddiaeth lawn i'r newidiadau o fewn demograffeg Cymru a'r cynnydd parhaol yn niferoedd yr anheddiadau sy'n berchen-ddeiliadaethau".

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi bod y broses Asesu i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn gymwys i dai awdurdodau lleol yn unig, ac yn ei gwneud yn ofynnol fod hyn hefyd yn gymwys i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a landlordiaid preifat er mwyn sicrhau tai cyfartal i bob eiddo sydd â thenantiaid ynddynt.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi bod canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer asesu cyflwr stoc tai awdurdodau lleol y cyfeirir atynt o fewn Safon Ansawdd Tai Cymru yn ddigon clir i sicrhau bod y wybodaeth a geir ac a gofnodir yn gymaradwy ledled Cymru.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn cefnogi lleoli cartrefi mewn amgylchedd deniadol a diogel, ond yn cydnabod nad yw hyn hefyd o angenrheidrwydd ar ffurf ystadau, gan nad dyna'r tai mwyaf addas ym mhob cymuned.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i wneud cynrychioliadau pellach i Lywodraeth y DU ac yn gwneud cais am newid yn y Rheolau Benthyca Gwariant Cyhoeddus i ganiatáu i Awdurdodau lleol fenthyca digon o arian i fynd i'r afael â'r dagfa o waith atgyweirio sy'n aros i'w wneud yn y tai cyngor eu hunain os dymunant wneud hynny.

*Cafodd copi Cymraeg o Safon Ansawdd Tai Cymru ei ebostio at yr Aelodau ar 13 Rhagfyr 2001.*

Cliciwch yma i weld *copi Cymraeg o Safon Ansawdd Tai Cymru* - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 10 Ionawr 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**